



Economeg Iechyd a Gofal Cymru

Health and Care Economics Cymru



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2022 - 2023

Adroddiad blynyddol



Cynnwys

Mae Economeg Iechyd a Gofal yn Bwysig!	2
Cipolwg ar ein Blwyddyn – Matricsau Allweddol HCEC	3
Effaith a Chyfraniad Cynyddol HCEC	4
Capasiti Cynyddol Economeg Iechyd yng Nghymru	5
Pwy Ydym Ni?	6
Tîm HCEC	7
Uchafbwyntiau ein Heffaith Gynyddol	8
Diweddariad ar Becynnau Gwaith	12
Pecyn Gwaith 1: Sicrhau Gymaint ag sy'n Bosibl o Gydwethredu ag Ymchwilwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol	14
Pecyn Gwaith 2: Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd	16
Pecyn Gwaith 3a: Darparu Cyngor a Chefnogaeth Economeg Iechyd	19
Pecyn Gwaith 3b: Cyfrannu Arbenigedd Economeg Iechyd at Brosesau Penderfynu a Pholisi	21
Pecyn Gwaith 4: Adeiladu Capasiti a Gallu mewn Economeg Iechyd Fethodolegol a Chymhwysol	23
Ein Prif Gyhoeddiadau	26
Cynyddu ein Cydweithrediadau	28
Ein Cydweithredwyr Allweddol	30
Sylwadau i Gloi: Ein Huchelgais ar gyfer Twf yn y Dyfodol	31
Dysgu Mwy am HCEC	33

MAE ECONOMEG IECHYD A GOFAL YN BWYSIG!

Mae economeg iechyd a gofal yn ein galluogi i ddeall sut y gallwn ddyrannu ein hadnoddau prin i sicrhau'r budd mwyaf i ddiwallu anghenion iechyd a gofal pobl Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd iechyd a gofal presennol sy'n wynebu heriau na welwyd o'r blaen wrth inni wella ar ôl y pandemig COVID-19 a rheoli'r argyfwng costau byw a bygythiadau ehangach fel newid yn yr hinsawdd, ynghyd â'r tasgau diddiwedd o leihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol.

Croeso i adroddiad 2022/23 Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)!

Yn ein trydedd blwyddyn rydym wedi gweithio'n galed i gael effaith bositif yn y maes ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang. Rydym wedi cyflawni twf sylweddol fel grŵp seilwaith, gan fwy na dyblu ein hincwm ymchwil o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler tudalen 3). Yn y flwyddyn ddiwethaf, roeddem yn brif ymchwilwyr ar bum grant a chyd-ymchwilwyr ar ddeuddeg, rydym wedi cryfhau ein cydweithrediadau (tudalennau 28-30), allbynnau ein hymchwil (tudalennau 26-27) ac wrth gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd (tudalennau 16-17) ac rydym wedi croesawu aelodau newydd i'r gymuned economeg iechyd a gofal yng Nghymru (tudalen 28). Yn yr adroddiad hwn, rydym yn falch o gyflwyno ein gweithgarwch lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'n heffaith a'n cyfraniad cynyddol at ymchwil yng Nghymru a thu hwnt.



Cyd-gyfarwyddwyr HCEC, yr Athro Deb Fitzsimmons a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards yn croesawu'r Athro Murray Smith ym Mhrifysgol Aberystwyth i gymuned economegwyr iechyd yng Nghymru.

CIPOLWNG AR EIN BLWYDDYN

MATRICESAU ALLWEDDOL HCEC

Mae ein prif fatricsau ar gyfer 2022/23 wedi'u crynhoi yn y ffeithlun isod:


**Gwobr seilwaith
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£383k

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	5	12
Gwerth	£4.9m	£14.4m
Cyllid i Gymru	£569k	£12.4m
Cyllid i grŵp	£355k	£1.2m
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	6	28
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	5	5



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

MAE HCEC EHANGU EI WEITHGARWCH

Y llynedd, llwyddwyd i fwy na dyblu cyfanswm gwerth ein grantiau o £8.4 miliwn yn 2021/22 i £19.3 miliwn yn 2022/23. Mae dyfarniadau a arweinir gan grwpiau wedi cynyddu fwy na 10 gwaith o £405,000 yn 2021/22 i £4.9 miliwn yn 2022/23, gyda hwb o 80% yng ngwerth y ceisiadau rydym yn cydweithio arnynt. Bu cynnydd sylweddol yn swm y cyllid rydym wedi'i ddenu i Gymru (o £5.5 miliwn yn 2021/22 i £12.9 miliwn yn 2022/23) ac i'n grŵp (o £902,000 i £1.6 miliwn) a bu cynnydd yn nifer y swyddi ychwanegol a grëwyd. Rydym wedi cynnal ein lefelau uchel arferol o allbynnau ac wedi cynyddu nifer y cyhoeddiadau sydd wedi ymddangos mewn cyfnodolion uchel eu dylanwad.


EFFAITH A CHYFRANIAD CYNYDDOL HCEC

Yn ystod 2022/2023 gwelwyd twf sylweddol yn incwm ymchwil, effaith a chapasiti economeg iechyd yng Nghymru gan ein tîm Cymru gyfan bywiog a llawn cymhelliant. Rydym yn falch o arddangos ein cyflawniadau a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae penawdau positif ein cyfraniad a'n heffaith gynyddol yn 2022/23 wedi'u hategu gan y modd yr ydym yn cyfleu pwysigrwydd gwaith HCEC i'r maes iechyd a gofal yng Nghymru a'r bobl a wasanaethir ganddo. Yn adroddiad eleni, rydym yn cyflwyno ein hesiamplau gorau o sut yr ydym wedi arwain a chefnogi ymdrechion ymchwil rhyngddisgyblaethol ac wedi rhannu ein cyfoeth o arbenigedd economeg iechyd i gynghori a chefnogi prosesau penderfynu iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt.

Roedd ein partneriaeth ar ddyfarniad Horizon Ewrop, y prosiect Invest4Health sy'n werth £4.6 miliwn gyda'r nod o annog ffyrdd newydd o ariannu cynlluniau hybu iechyd ac atal clefydau, yn arwydd o'n huchelgais gynyddol a'n pwyslais ar atal ac ar lesiant (gweler tudalennau 8-9). Rydym hefyd yn amlygu ein rhaglen gydweithredu Cymru gyfan dymor hir mewn gwyddorau golwg yng Nghymru i wella gwasanaethau llygaid ledled Cymru (tudalennau 10-11). Wrth inni barhau i ddatblygu ein gwaith mewn economeg gofal cymdeithasol, sy'n cael ei hwyluso drwy ein Hyb Gwerth Cymdeithasol, rydym yn rhannu enghreifftiau sydd, ynghyd â phobl, mae'r cysyniad o le yn faes sy'n cael mwy o sylw er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol, i atal salwch a hybu llesiant.

O'i gymharu â'n dwy flynedd gyntaf, rydym wedi cynyddu'n sylweddol nifer ein dyfarniadau llwyddiannus.



Yn yr adroddiad hwn rydym yn rhannu â chi ein hallbynnau ymchwil cryfaf, gyda 22 o bapurau yn y prif gyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid fel yr European Journal of Cancer a'r British Journal of Surgery (tudalennau 26-27). Mae ein gwaith cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn dal i ffynnu, gyda mwy o bwyslais ar sicrhau ein bod yn cyd-gynhyrchu ein hymchwil â'n cyfranwyr cyhoeddus o'r dechrau (tudalennau 16-17).

Rydym yn gobeithio y gwnewch fwynhau ei ddarllen.

CAPASITI CYNYDDOL ECONOMEG IECHYD YNG NGHYMURU

Mae HCEC yn gweithio fel tîm ac mae hynny'n dechrau gyda'n model Cydgyfarwyddiaeth llwyddiannus a'n hymrwymiad i sicrhau bod HCEC yn amrywiol a cynhwysol. Rydym yn dal i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddion ymchwil economeg iechyd y dyfodol. Mae ein llwyddiant i gynyddu capasiti yn parhau i sicrhau bod ein hymchwilyr yn gallu ffynnu yn eu gyrfaoedd, gyda HCEC fel galluogwr allweddol i gynyddu capasiti mewn ymchwil economeg iechyd yng Nghymru (gweler tudalennau 23-24). Mae'n bleser cael rhannu sut yr ydym yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn i feithrin cymuned amrywiol a chysylltiedig o arbenigedd ymchwil economeg iechyd ledled Cymru ar gyfer y dyfodol (tudalennau 31-32) a sut mae ein hymrwymiad i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth wedi mynd o nerth i nerth (tudalen 28-30).



Tîm HCEC yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE) ym Mhrifysgol Abertawe

BETH YW ECONOMEG IECHYD BETH BYNNAG?

Economeg iechyd yw astudio sut yr ydym yn defnyddio adnoddau prin i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth. Pan fydd adnoddau'n brin, rhaid inni wneud penderfyniadau anodd ar ble a sut i ddyrannu ein hadnoddau i gael y budd mwyaf i iechyd a llesiant poblogaethau. Mae economeg iechyd yn cymhwyso egwyddorion theori economeg ac mae'n cymhwyso fframweithiau cadarn o ddulliau a dadansoddiadau i gael tystiolaeth ar ddefnydd cost-effeithiol o adnoddau mewn penderfyniadau iechyd a gofal.

Fanylion am yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu ar ein gwefan:

<https://economegiechydagofal.cymru/>

PWY YDYM NI?

Mae Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) yn grŵp seilwaith ymchwil cydweithredol Cymru gyfan sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ein nod yw rhagoriaeth o safon ryngwladol mewn ymchwil economeg iechyd, ei methodoleg a chymhwysiad.

Rydym yn ymdrechu i gynnal a hybu cymuned o arbenigwyr economeg iechyd yng Nghymru, gyda chydweithredu cryf yn y sector iechyd a gofal, sy'n gwneud gwahaniaeth positif i ymchwil iechyd a gofal ac i'r bobl sy'n elwa arno. Yn y modd hwn, rydym yn cyfrannu at gynhyrchu tystiolaeth o safon uchel sy'n hanfodol i wneud y penderfyniadau gorau posibl i wella canlyniadau iechyd a gofal i bobl yng Nghymru a thu hwnt.

EIN CENHADAETH

'Darparu arbenigedd o'r radd flaenaf ym maes economeg iechyd (gan weithio gyda'n gilydd a defnyddio dull ystwyth, integredig ar gyfer Cymru gyfan) er mwyn galluogi gwasanaeth ymchwil a datblygu rhagorol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er budd cleifion, y cyhoedd a'r economi.'

Rydym yn cyflawni ein cenhadaeth drwy ein hamcanion 5 mlynedd i

- 1 Sicrhau cyfeiriad strategol, cydweithredol, drwy Gymru gyfan ar gyfer economeg iechyd, sy'n gydnaws â blaenoriaethau ar gyfer Cymru.
- 2 Sicrhau bod Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd yn rhan greiddiol o bopeth rydym yn ei wneud.
- 3 Darparu mynediad rhwydd at gefnogaeth economeg iechyd i ymchwilwyr sy'n gweithio o fewn seilwaith Economeg Iechyd a Gofal Cymru
- 4 Sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gydweithrediad â'r gymuned ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt er mwyn gwneud yn siŵr bod y dystiolaeth orau posibl ar gael i helpu i wneud penderfyniadau.
- 5 Darparu cyngor a chymorth sy'n seiliedig ar brofiad ac anghenion i wneud penderfyniadau, llunio polisiau a dadansoddi drwy gymorth wedi'i dargedu i gymunedau Cymru.
- 6 Gwella capasiti a gallu ar draws y gymuned economeg iechyd yng Nghymru, drwy ddatblygu gweithgarwch methodolegol ar gyfer Cymru gyfan gyda phwyslais penodol ar atal a chynyddu economeg gofal cymdeithasol.
- 7 Cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad o ran defnydd a gwerth ymchwil economeg iechyd yn y gymuned iechyd a gofal.

TÎM HCEC

Rydym yn ymfalchio ein bod yn dilyn model cydweithredol o weithio ledled Cymru sy'n manteisio ar gymuned gyfoethog ac amrywiol o arbenigedd mewn economeg iechyd. O dan arweiniad ein model Cyd-gyfarwyddiaeth llwyddiannus mewn unedau academaidd economeg iechyd sydd wedi'u lleoli ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe, mae ein bwrdd rheoli'n cynnwys sawl ymchwilydd sydd yng nghanol neu'n gynnar yn eu gyrfaoedd sydd wedi dirprwyo cyfrifoldebau i arwain agweddau ar ein gweithgarwch gan sicrhau dilyniant mewn arbenigedd ymchwil ac arweinyddiaeth yng Nghymru.

CYD-GYFARWYDDWYR HCEC



Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards (chwith) Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor

Yr Athro Deb Fitzsimmons (dde) Canolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE), Prifysgol Abertawe

SEFYDLIAD HCEC



Bwrdd cynghori

Cadeirydd Annibynnol: Yr Athro Steve Morris (Prifysgol Caergrawnt)

Cyd-Gadeirydd Annibynnol: Yr Athro Monica Busse-Morris (Prifysgol Caerdydd)

Karen Harrington (Cyfrannwr o'r cyhoedd), Nathan Davies (Cyfrannwr o'r cyhoedd), Dr Brendan Collins (Llywodraeth Cymru), Dr Lisa Trigg (Gofal Cymdeithasol Cymru), Yr Athro Ceri Phillips (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/Prifysgol Abertawe), Dr Angela Boland (Prifysgol Lerpwl), Yr Athro Rod Taylor (Prifysgol Glasgow)

Bwrdd Rheoli HCEC

Cyd-Gyfarwyddwyr: Yr Athro Deb Fitzsimmons
Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-Ymchwilyddwyr: Yr Athro Dyfrig Hughes, Dr Pippa Anderson, Dr Berni Sewell

Rheolwyr Prosiect: Jacob Davies,
Dr Liv Kosnes (tan Hydref 2022)

Gweinyddwyr: Ann Lawton, Emma Baker, Alicia Evans

Arweinwyr Gofal
Dr Ceryl Davies, Cyd-Gyfarwyddwyr HCEC

Arweinwyr Unedau Treidlu
Cyd-Gyfarwyddwyr HCEC

Arweinydd Masnachol
Dr Pippa Anderson

Hwb Dulliau
Cyd-Gyfarwyddwyr HCEC,
Dr Katherine Cullen

Arweinwyr Cyfathrebu
Kalpa Pisavadia,
Dr Mari Jones

Arweinwyr PPIE
Dr Llinos Haf Spencer, Dr Maria Cheshire-Allen

Arweinydd ECR
Dr Shaun Harris

Arweinwyr Effaith
Jacob Davies, Dr Berni Sewell

Julia Lowin, Dr Yang Zhou, Rebecca Summers, Rhys Pockett, Dr Ned Hartfiel, Laura Lynch, (Pim) Kodchawan Doungsong

Ymchwilyddwyr HCEC
(Cefnogir yr holl staff gan arianwyr lluosog)

Dr Victory Ezeofor, Abraham Makanjuola, Dr Holly Whiteley, Dr Bethany Anthony, Dr Huw Lloyd Williams

UCHAFBWYNTIAU EIN HEFFAITH GYNYDDOL

Yn ystod 2022/23, roedd ein pwyslais ar 'uchelgais a thwf' gyda sylw arbennig i lesiant a llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru.



Invest4Health



UNIVERSITY OF
OXFORD



Norway
Health Tech

INNOVATION
SKANE

Erasmus School of
Health Policy
& Management

Erasmus
University
Rotterdam

syreon
clinical research

DEFNYDDIO MODELAU CYLLID NEWYDD AR GYFER HYBU IECHYD AC ATAL CLEFYDAU

*Mae HCEC yn ffurfio partneriaethau mewn ymchwil gydweithredol ryngwladol sy'n ymchwilio i ariannu ymyriadau ataliol i fynd i'r afael ag afiechydon y mae modd eu hosgoi, anabledd a marwolaethau cynamserol: **Prosiect Invest4Health Horizon Ewrop.***

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i'w ateb?

Mae systemau gofal iechyd yn cael eu herio gan alw a phwysau cynyddol ar adnoddau prin, sy'n waeth o ganlyniad i ôl-gronid sylweddol am wasanaethau gofal o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Gwelwyd fod ffyrdd newydd o ariannu hybu iechyd ac atal clefydau, a adwaenir fel buddsoddi gallueiddio clyfar (SCI), yn arwain at enillion sylweddol ar fuddsoddiadau gyda buddiannau ariannol i iechyd a sectorau eraill yn fwy na'r costau cychwynnol.

Bydd prosiect Invest4Health Horizon Ewrop, a gychwynnodd ym mis Mawrth 2023, yn datblygu ac yn rhoi prawf ar fodolau, trefniadau llywodraethu ac adnoddau amgen gyda phenderfynwyr a llunwyr polisïau a phanelau dinasyddion sy'n hwyluso SCI mewn hybu iechyd ac atal ac yn darparu'r ymyriad neu'r gwasanaeth cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir.

Derbyniodd yr astudiaeth £4.6 miliwn o gyllid gyda £288,353 yn dod i Gymru a HCEC. Mae ei bwyslais ar ddod â rhanddeiliaid yn y maes gofal iechyd ynghyd i gynllunio ac ariannu hybu iechyd ac atal clefydau ar lefelau poblogaeth, cymunedau ac unigolion mewn ffordd sy'n creu newid sylfaenol o wasanaethau ysbyty i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sydd wedi'u hintegreiddio, yn y gymuned.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bydd ymchwilwyr HCEC yn y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) yn cyfrannu at elfennau economeg iechyd ac adolygu'r prosiect. Gyda dull aml-ddisgyblaethol, bydd Invest4Health yn graddnodi ac yn cytgordio tair prif ffrwd waith: datblygu modelau prototeip gweithredol i fuddsoddi gallueiddio clyfar, profi iteraidd mewn amgylcheddau byd go iawn a pharatoi pecyn masnachfreinio ar gyfer arddangos ar raddfa fawr.

Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Bydd y prosiect Invest4Health yn cynhyrchu canlyniadau ac effeithiau pendant ar gyfer datblygu a mabwysiadu SCI. Bydd hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar systemau gofal iechyd a sut maent yn cael eu hariannu. Bydd hefyd yn hybu prosiectau penderfynu cyfartal i wella iechyd a llesiant grwpiau agored i niwed ac yn helpu pobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn yn ystod unrhyw bandemig neu argyfwng yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 'Cymru Iachach'.

TWF EIN PROFFIL RHYNGWLADOL MEWN CANLYNIADAU MEWN CANSER A ADRODDWYD GAN GLEIFION

Yr Athro Deb Fitzsimmons yw awdur olaf a dechreuwaraig y diweddariad ar y llawlyfr Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil a Thriniaeth Cancer (EORTC) a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer datblygu holiadur Ansawdd Bywyd (QOL). Mae hi'n gysylltiedig â sawl prosiect methodolegol a rhyngwladol gan gynnig arbenigedd ar fesur Ansawdd Bywyd, a chyflwynodd dystiolaeth i weithdy diweddar yr United States Food and Drug Administration ar fesur baich symptomau. Mae ganddi rôl gyswllt Ansawdd Bywyd gyda grwpiau gastroberfeddol EORTC ac mae'n mentora ymchwilwyr Ansawdd Bywyd ôl-raddedig sydd wedi'u lleoli mewn prifysgolion ym Mhrifysgolion Innsbruck, Awstria, a Saarbrücken, yn yr Almaen.

EIN CYDNABYDDIAETH FYD-EANG AM ARWAIN YMCHWIL ECONOMEG IECHYD



Rydym yn falch o gyhoeddi bod astudiaeth lyfryddol ddiweddar o ymchwil economeg iechyd am y cyfnod 1975-2022, wedi enwi'r Athro Rhiannon Tudor Edwards fel un o'r 5 awdur mwyaf toreithiog yn y byd mewn cyhoeddiadau economeg iechyd sydd wedi'u dyfynnu yn y llenyddiaeth, sy'n gosod Prifysgol Bangor yn y 10 uchaf o Sefydliadau Addysg Uwch mwyaf cydweithredol mewn economeg iechyd.

GWELEDIGAETH DDA AR GYFER Y DYFODOL

CYDWEITHREDU HCEC MEWN OFFTHALMEG A GWYDDORAU GOLWG YNG NGHYMURU A'R DU

LLINELL AMSER O YMCHWIL HCEC I MEWN I

GWASANAETHAU LLYGAID

Astudiaeth DEPVIT

Gwerthuso nifer yr achosion o symptomau iselder ymhlith mynychwyr gwasanaethau golwg isel yng Nghymru a Lloegr.

1

Dechreuodd 2012
Prifysgolion Bangor a
Chaerdydd

2

Retinopathi diabetig

Ymchwilio i'r costau a'r buddion os bydd amser rhwng dangosiadau arferol ar gyfer retinopathi diabetig yn cael ei newid.

Dechreuodd 2014
Prifysgolion Aber
Chaerdydd

3

Prosiect AMD Gwlyb

Gwerthuso llwybrau gwasanaethau llygaid cymunedol ar gyfer pobl â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran yng Nghymru.

Dechreuodd 2015
Prifysgolion Abertawe a
Chaerdydd, a Phrifysgol
De Cymru (USW)

4

Prosiect RNIB

Ymchwilio i effaith Swyddogion Cyswilt Clinigau Llygaid ar ofal a chanlyniadau pobl sy'n mynychu gwasanaethau llygaid ysbytai.

Dechreuodd 2015
Prifysgol Aber
USW

5

Astudiaeth BRYSBENNU

Mae penderfynu a yw newid i'r ffordd y mae llygaid yn gostwng triniaeth ar gyfer pobl â glawcoma yn ymarferol.

Dechreuodd 2016
Prifysgolion Abertawe a
Chaerdydd

6

Astudiaeth H2C

Gwerthuso costau ac effeithiau symud gwasanaethau llygaid ysbytai ar gyfer glawcoma ac AMD i'r gymuned.

Dechreuodd 2020
Prifysgolion Abertawe a
Chaerdydd, PDC a Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan (ABUHB)

7

Astudiaeth ASSIST

Ymchwilio i anghenion cymorth a mynediad pobl â chlefyd y llygaid sy'n bygwth eu golwg neu nam ar eu golwg.

Dechreuodd 2022
Prifysgolion Abertawe a
Chaerdydd, USW ac ABUHB

8

Astudiaeth FARSIGHT

Archwilio'r potensial i gynnwys optometryddion gofal sylfaenol yn y llwybr sgrinio retinopathi diabetig.

Dechreuodd 2022
Prifysgolion Abertawe a
Chaerdydd, a Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel
Da UHB

9

Astudiaeth TIGER

Mae gwerthuso a yw llawfeddygaeth ychwanegol i bigiadau llygaid rheolaidd yn arwain at well golwg mewn cleifion â gwaedlif is-fasgwlaidd.

Dechreuodd 2023
Prifysgol Bangor

10

Ystorfa BOPPP

Storfa Gwyddor Offthalmoleg a Gweledigaeth Bangor o fesurau canlyniadau ar gyfer treialon clinigol a gwerthusiadau economaidd iechyd.

Dechreuodd 2023
Prifysgolion Bangor a
Lerpwl

11

Cyfleoedd Newydd

A all optometryddion cymunedol gyflwynu ardstyad o nam ar eu golwg i bobl na allant gael triniaeth weithredol?

Yn dod cyn hir

Roedd gwasanaethau llygaid yng Nghymru yn cael anhawster wrth geisio ymdopi â'r galw hyd yn oed cyn dyfodiad COVID-19. Mae llawer o gleifion wedi aros mwy na dwy flynedd am apwyntiad gofal eilaidd offthalmoleg, ac o ganlyniad maent wedi colli golwg na ellir ei adfer. Mae'r angen dirfawr am ad-drefnu'r gwasanaethau hyn i wella gofal a chanlyniadau i gleifion, i ddod â gofal yn nes at eu cartref ac i leihau pwysau ar wasanaethau ysbytai sydd wedi'u heffeithio'n andwyol gan y pandemig. Mae'n bwysicach nag erioed yn awr ein bod yn buddsoddi mewn ymchwil aml-ddisgyblaethol sy'n dangos tystiolaeth i weithredu systemau llygaid mwy effeithlon a chost-effeithiol yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ystod y degawd diwethaf, a gyda chymorth Ymchwil Gofal ac Iechyd Cymru, mae ymchwilwyr HCEC wedi datblygu arbenigedd, hygrededd, capasiti a rhwydweithiau ledled Cymru i gynyddu sail dystiolaeth i gynorthwyo prosesau penderfynu mewn offthalmoleg. Rydym wedi cydweithredu ag Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Optometreg Cymru a sefydliadau trydydd sector. Gyda'n gilydd, rydym wedi mabwysiadu dull cymysg i integreiddio arbenigedd iechyd a gofal cymdeithasol i greu rhaglen ymchwil sefydledig sy'n ateb cwestiynau pwysig i wasanaethau llygaid yng Nghymru. Mae'r rhwydweithiau a'r perthnasoedd a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn, a'r dystiolaeth a gasglwyd eisoes wedi helpu i sicrhau bod ymchwil offthalmoleg Cymru yn arloesol, gan ddarparu gwasanaethau llygaid gwell a mwy effeithlon i'r GIG ac i'r bobl yng Nghymru sy'n cael eu gwasanaethu ganddo.

GWERTHUSO OPSIYNAU TRINIAETHAU NEWYDD AR GYFER AMD DIFRIFOL, PRIN, A CHYMHLETHDODAU



Bydd rhai pobl sydd â dirywiad maciwlaid cysylltiedig ag oedran (AMD) gwlyb yn datblygu gwaedlif is-faciwlaid (SMH), clot mawr yng nghefn y llygad all achosi iddynt gollu eu golwg yn barhaol yn y llygad hwnnw. Bydd ymchwilwyr HCEC yn CHEME yn cynnal gwerthusiad economaidd ochr yn ochr ag astudiaeth TIGER i ganfod a yw llawdriniaeth i glirio SMH yn gost-effeithiol. Mewn cydweithrediad â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn Uned Llygaid St. Paul, Lerpwl, byddwn yn creu ac yn cynnal storfa ar-lein, [mynediad agored o fesurau Ansawdd Bywyd sy'n Gysylltiedig â'r Golwg](#). Hefyd, bydd y cydweithredu hwn yn helpu i ddatblygu capasiti seilwaith ymchwil mewn economeg iechyd, fel y gallwn barhau i gynyddu ein perthnasoedd gwaith cryf presennol ym maes offthalmoleg.

SYMUD GWASANAETHAU LLYGAID I'R GYMUNED

Yn draddodiadol, mae monitro ac atgyfeiriadau glawcoma ac AMD wedi digwydd mewn ysbytai, gydag amseroedd aros hir sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd bywyd a chanlyniadau i olwg cleifion. Wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, defnyddiodd ymchwilwyr HCEC yn SCHE fodelau efelychu arwahanol i werthuso cost-effeithiolrwydd ac effaith modelau gofal amgen ar gleifion lle mae monitro cleifion yn cael ei symud i optometryddion gofal sylfaenol a stryd fawr a all benderfynu a ddylid atgyfeirio'r claf at wasanaethau llygaid ysbyty ynteu eu trin yn y gymuned. Yn ôl ein canlyniadau, mae symud gwasanaethau llygaid ysbytai i'r gymuned yn arbed arian heb gael effaith negyddol ar y canlyniadau i gleifion. Mae amseroedd aros i gleifion yn y lleoliadau gofal sylfaenol yn sylweddol is nag yn achos gwasanaethau ysbytai ac mae llai o bobl yn cael eu hychwanegu at restrau aros offthalmoleg pan fydd llwybrau cymunedol yn cael eu defnyddio. Felly, mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi gwerth am arian ac mae'n helpu i leihau'r baich ar ofal eilaidd. Mae ein canlyniadau'n awr yn cael eu rhannu â phenderfynwyr ledled Cymru i helpu i gynllunio gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth i ddiwygiadau i gontractau ar gyfer gwasanaethau optometreg yng Nghymru gael eu cyflwyno.

DIWEDDARIAD AR EIN PECYNNAU GWAITH

Mae ein amcanion yn cael eu cefnogi gan bedwar pecyn gwaith a phum thema drawsbynciol (gweler tudalen 6).

1 CYDWEITHREDU

Sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gydweithio ag ymchwilwyr iechyd a gofal drwy gymuned o arbenigwyr economeg iechyd.

Thema Drawsbynciol: Ymgysylltu â seilwaith Llywodraeth Cymru.

2 CYNWYS

Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd.

Thema Drawsbynciol: Cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth

3a CYMORTH

Darparu cyngor a chefnogaeth economeg iechyd i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn erbyn blaenoriaethau ac anghenion Llywodraeth Cymru.

Thema Drawsbynciol: Gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus

3b CYFRANNU

Cyfrannu arbenigedd economeg iechyd at brosesau penderfynu a llunio polisi.

Thema Drawsbynciol: Ymgysylltu a chydweithredu masnachol

4 TWF

Adeiladu capasiti a gallu mewn economeg iechyd fethodolegol a chymhwysol i leoli HCEC yn y gymuned economeg iechyd.

Thema Drawsbynciol: Effaith



Hoffem ddiolch i holl aelodau tîm HCEC am eu cyfraniad, eu hymroddiad a'u brwdfrydedd i gyflawni ein pecynnau gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth a'u colegoldeb tuag at ei gilydd, y Cyd-gyfarwyddwyr a'r gymuned ehangach. Maent yn sicrhau bod HCEC wedi parhau mewn sefyllfa i wrthsefyll heriau'r blynyddoedd diwethaf a gall yn awr dyfu a manteisio ar gyfleoedd newydd. Diolch yn arbennig i'n holl gydweithredwyr y bu'n gymaint o ffrind cael gweithio â hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

NI ALLEM LWYDDO HEBOCH CHI

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos y cynnydd yn yr effaith a gafodd HCEC ym mhob un o'n pecynnau gwaith yn ystod 2022/23.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un lwyddiannus i HCEC ac rydym yn sicrhau bod gennym ddull a llwybr y profwyd sy'n gweithio i gynhyrchu enillion ar fuddsoddiadau yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar i'n cyfranwyr o blith y cyhoedd am barhau i'n cefnogi ac i'n Bwrdd Cyngori sy'n mynd ati i graffu ar ein gweithgarwch i sicrhau ein bod yn cyflawni ymchwil o safon ryngwladol yn ein maes ac yn dangos cynnydd pendant sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau.


Hoffem ddiolch i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am eu buddsoddiad ynom a'u cefnogaeth inni fel grŵp seilwaith. Hoffem ddiolch i chwithau hefyd, ein rhanddeiliaid gwerthfawr yn y gymuned iechyd a gofal ehangach.

Mae'r cyfleodd sydd o'n blaen yn rhai cyffrous wrth inni ymrwymo am y ddwy flynedd nesaf a thu hwnt i gefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn eu cynllun i wella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru.

Diolch yn fawr!

EIN DULL O GYNHYRCHU

ENILLION AR FUDDSODDIADAU



PECYN GWAITH 1: SICRHAU GYMAINT AG SY’N BOSIBL O GYDWEITHREDU AG YMCHWILWYR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae’r rhaglen ODO yn enghraifft ragorol o werth presgripsiynau cymdeithasol. Disgwylir y bydd cyfranogwyr yn profi gwell llesiant meddyliol, ffitrwydd corfforol, a sgiliau cyflogadwyedd. Mi allant hefyd elwa ar berthnasoedd gwell â’u hanwyliaid o ganlyniad i well llesiant meddyliol, a gwell cydlyniant cymunedol. Hefyd, mi all presgripsiynau cymdeithasol helpu i leihau’r galw am adnoddau prin y system iechyd a gofal cymdeithasol.



*Dr Victory Ezeofor,
Ymchwilydd HCEC*

Hybu ymarfer corff ym myd natur i wella iechyd meddwl a llesiant – enillion cymdeithasol ar astudiaeth buddsoddi

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i’w ateb?

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae 30% o oedolion yng Nghymru’n treulio llai na hanner awr yr wythnos yn bod yn weithgar yn gorfforol. Yn 2015 gwariodd y GIG yng Nghymru £35 miliwn yn trin clefydau y gellid eu hatal ac a achosir gan anweithgarwch corfforol, a dywedodd 28% o bobl yng Nghymru eu bod wedi profi problemau iechyd meddwl difrifol yn ystod y pandemig COVID-19. Mae disgwyliad oes pobl sy’n dioddef problemau iechyd meddwl tymor hir yn fyrrach, a hynny’n aml oherwydd diffyg ymarfer corff ac am eu bod yn esgeuluso eu hiechyd corfforol. Mae mwy o weithgarwch corfforol yn arwain at wella llesiant ac ansawdd bywyd a llai o symptomau iselder, gorbryder, a straen. Mae Rhaglen ‘Agor Drysau i’r Awyr Agored’ (ODO) y Bartneriaeth Awyr Agored sy’n cynnwys 12 sesiwn o gerdded neu ddringo lefel isel ym myd natur. Nod yr ODO yw codi lefelau gweithgarwch pobl yng Ngogledd Cymru sy’n profi iechyd meddwl gwael, gan helpu i’w symbylu, i fagu hyder, hunan barch, ffitrwydd corfforol, ac ansawdd bywyd mewn amgylchedd cefnogol. Mae hefyd yn gyfle i gymdeithasu ag eraill sydd hefyd yn profi heriau iechyd meddwl.

Beth ydym ni’n ei wneud?

Mae ymchwilydd HCEC yn CHEME wedi defnyddio methodoleg enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) i bennu ystod y cymarebau SROI ar gyfer y rhaglen ODO. Cwblhaodd y cyfranogwyr holiadur ar eu defnydd o adnoddau’r gwasanaethau iechyd, eu gweithgarwch corfforol wythnosol, a’u llesiant meddyliol, a buont yn mynychu cyfweiliadau wedi’u lledstrwythuro i gofnodi effaith lawn yr ODO ar eu bywydau. Mae ymyriad yr ODO yn cyd-fynd â blaenoriaeth pedwar Cynllun Gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019- 2022, sy’n ymdrechu i wella ansawdd ac ystod y therapiau sydd ar gael i bobl yng Nghymru.

Cynorthwyo pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia genetig a heb ei arwain gan y cof - astudiaeth GNMLD-TALK

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i'w ateb?

Mae mathau mwy prin o ddementia yn effeithio ar tua 115,000 o bobl yn y DU (gan gynnwys 59,000 o bobl â dementia, 45,000 o ofalwyr ac 11,000 mewn risg genetidd o fathau prin o ddementia). Gyda'r mathau hyn o ddementia'n effeithio ar bobl o dan 65 oed yn bennaf, maent yn cael effaith sylweddol ar ofalwyr ac mae'n achosi pryder sylweddol o ddatblygu dementia a'i drosglwyddo i'w plant ymhlith rhai â risg genetig o ddementia. Er bod cleifion wedi'u gwasgaru ar draws y wlad, canfu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) fod ardaloedd lle ceir niferoedd uchel hefyd yn ardaloedd lle mae lefelau isel o weithgarwch ymchwil. Un o'r ardaloedd hyn yw rhanbarth De Orllewin Cymru.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Ar y cyd ag University College London (UCL), Sefydliad Hapdreialon Iechyd Gogledd Cymru (NORTH) a'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), bu ymchwilwyr HCEC yn SCHE yn arwain y gwaith i ddylunio pecyn gwaith craidd ar gyfer grant rhaglen NIHR a fydd yn edrych ar gostau a chanlyniadau ymyriadau cyfun wyneb yn wyneb/digidol ar gyfer pobl ag un o bum math o ddementia genetig neu heb eu harwain gan y cof nad oes ymchwil ddigonol wedi'i wneud iddynt. Dyfarnwyd y rhaglen ym mis Mehefin 2022 (cyfanswm o £1.9 miliwn dros gyfnod o 60 mis), gyda £212,000 yn dod i Gymru a £99,000 i HCEC. Mae hi'n ychwanegu pedwaredd grant rhaglen NIHR at ein portffolio cyfredol gydag economegwyr iechyd o Gymru'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddyfarniad grant pwysig gan gynllun cyllido cystadleuol dros ben. [Mae'r dyfarniad GNMLD-TALK \(NIHR 203680\)](#) wedi'i gofrestru ar bortffolio'r NIHR.

Sut mae'r gwaith yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru

Bydd y rhaglen hon yn cefnogi polisi ac ymarfer Dementia yng Nghymru. Yn y [Cynllun Gweithredu Dementia ar gyfer Cymru 2018-2022](#) a [Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan](#), mae Llywodraeth Cymru am ddatblygu llwybr cyson a fydd yn galluogi pobl i gael diagnosis prydlon ynghyd â'r gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Fi yw economegydd iechyd y rhaglen, sy'n fy helpu i ychwanegu at fy mhortffolio gwaith. Rwyf hefyd wedi cael swydd cymrawd ymchwil er anrhydedd yn University College London i ffurfioli cysylltiadau â HCEC/SCHE ac rydym yn parato'i'r allbwn cyntaf ar hyn o bryd, [adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth](#).

Bydd y prosiect yn cynhyrchu'r dystiolaeth gyntaf o effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymyriadau digidol a therapïau siarad i arafu datblygiad dementia nad yw'n cael ei arwain gan y cof. Mae ganddo'r potensial i wella canlyniadau i gleifion a gofalwyr a bydd yn cyfrannu at ganllawiau a gwasanaethau yn y dyfodol i helpu'r boblogaeth hon sydd heb gael ei gwasanaethu'n ddigonol.



Dr Katherine Cullen,
Ymchwilydd HCEC

PECYN GWAITH 2: CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD

Wedi'i seilio ar y syniad o 'ddim ymchwil amdanaf i hebof i', mae Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd (PPIE) bellach yn elfen anhepgor o ymchwil iechyd a gofal ac mae'n ofynnol i sicrhau cyllid ymchwil. Mae HCEC yn parhau i ddatblygu strategaeth PPIE lwyddiannus. Ein nod yw parhau i ddysgu drwy glywed safbwyntiau niferus ac amrywiol gan gleifion a'r cyhoedd, fel y bydd ein hymchwil yn fwy perthnasol fyth i fywydau a phrofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.

Meithrin ein Grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd

Yn ystod 2022/23, mae ein harweinyddion PPIE HCEC wedi parhau i ymgysylltu â Grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd HCEC (PIG/Cadw mi gei). Mae'r grŵp PIG/Cadw mi gei yn cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer PPIE ac mae'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ar Zoom, gyda chynlluniau i gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn yr hydref. Yn ystod y cyfarfodydd hyn rydym yn rhannu ymchwil economeg iechyd Prifysgolion Bangor ac Abertawe. Mae hyn yn gyfle i ymchwilwyr HCEC, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaedd a myfyrwyr PhD i ymgysylltu â'r cyhoedd i ddatblygu eu prosiectau ac mae'n galluogi'r cyhoedd i ymwneud â phrosiectau ymchwil cyffrous.

Diolch!

Unwaith eto, hoffem ddiolch i Mrs Karen Harrington a Mr Nathan Davies, ein haelodau o'r cyhoedd ar Fwrdd Cyngori HCEC am ddefnyddio eu profiad o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i arwain ein gweithgarwch ac i fynegi llais y cyhoedd, sydd mor hanfodol i'n gwaith. Hoffem ddiolch hefyd i holl aelodau ein grŵp PIG/Cadw mi gei sydd, gyda'u cefndiroedd amrywiol, yn cyfrannu profiadau, gwybodaeth a syniadau gwerthfawr at ddatblygiad ein hymchwil.

Mae gennyf ddi-ddordeb arbennig yn y modd y gall ymyriadau cymdeithasol cost isel helpu'r gwasanaeth iechyd i arbed arian yn y tymor hir. Mae'r GIG dan bwysau difrifol ac mae'r cyhoedd yn croesawu dulliau cost-effeithiol sy'n gwella ansawdd bywyd ac yn lleddfu peth ar y straen ariannol ar y GIG.



Mrs Karen Harrington,
Cyfrannwr Cyhoeddus HCEC

Cyn imi gael fy newis fel aelod o Fwrdd Cyngori HCEC, nid oeddwn yn sylweddoli bod cymaint o waith economeg iechyd pwysig yn cael ei wneud yng Nghymru.



Mr Nathan Davies, Cyfrannwr
Cyhoeddus HCEC

Ymwreiddio cynnwys y cyhoedd yn nyluniad gwerthusiadau economeg iechyd

Gweithio â chleifion a'u gofalwyr i ddatblygu mesur defnydd o adnoddau ar gyfer wlserau traed diabetig – y treial REDUCE

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i'w ateb?

Amcangyfrifwyd fod wlserau traed diabetig wedi costio bron i £1 biliwn i'r GIG yn 2014/15. Mae treial yr NIHR Reducing the Impact of Diabetic Foot Ulcers (REDUCE) yn gwerthuso ymyriad sy'n galluogi cleifion â diabetes i fonitro newidiadau yn eu traed, cynnal lefelau diogel o weithgarwch corfforol, cael mynediad cynnar at help meddygol a rheoli eu hwyliau.

Beth wnaethom ni?

Cleifion yw'r arbenigwyr ar eu hiechyd eu hunain ac maent yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ar y defnydd o ofal iechyd ac adnoddau eraill sydd eu hangen ar gyfer gwerthusiadau economeg iechyd. Fodd bynnag, nid yw mesurau canlyniadau generig bob amser yn cofnodi'r holl ddata sy'n bwysig i grŵp penodol o gleifion. Bu ymchwilyr HCEC yn SCHE yn gweithio â phobl sy'n dioddef wlserau traed diabetig, eu gofalwyr, a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n eu trin i ddatblygu mesur defnydd o adnoddau ar gyfer y treial REDUCE a fydd yn gallu canfod y paramedrau sy'n bwysig i gleifion ac a fydd yn arwain at y canlyniadau gorau.

A HOFFECH CHI GYMRYD RHAN?

Os hoffech chi helpu i ddatblygu ymchwil economeg iechyd yng Nghymru, a wnewch chi ystyried ymuno â Grŵp Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd HCEC (Cadw mi gei/PIG). Mae gwybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan a manylion am y prosiectau ymchwil cyfredol yn cael eu dosbarthu i unigolion yn y grŵp drwy negeseuon e-bost a chylchlythyrau.

Os hoffech chi ymuno â Grŵp Cadw mi gei HCEC fel aelod o'r cyhoedd, [ewch draw i'n gwefan.](#)



Beth yw'r effaith a ddisgwylir?

Bydd y mesur defnydd o adnoddau, a gyd-gynhyrchir â chleifion a'u gofalwyr yn creu data cynhwysfawr ar gyfer y gwerthusiad economeg iechyd, a bydd yn gwella ansawdd a pherthnasedd ein gwaith. Mae'r fersiwn derfynol yn awr yn cael ei defnyddio ym mhrif dreial REDUCE a bydd y canlyniadau'n sail i'r gwerthusiad economaidd. Bydd y mesur ar gael i ymchwilyr eraill hefyd. [Mae'r dyfarniad REDUCE \(RP-PG-0618-20001\)](#) wedi'i gofrestru ar bortffolio'r NIHR.

Cipolwg ar ...



CYD-GYNHYRCHU

Mae gan HCEC enw da am gyd-gynhyrchu prosiectau ymchwil ac ymyriadau â'r cyhoedd. Mae Dr Llinos Haf Spencer, Dr Victory Ezeofor, Dr Huw Lloyd Williams, yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Deb Fitzsimmons wedi bod yn gweithio â Mrs Karen Harrington, Ms Andrea Hughes a Mr Anthony Cope o Grŵp Cynnwys y Cyhoedd HCEC i gyd-gynhyrchu cais amddifadedd deintyddol ynghyd â sgwrs i ymchwilio i ostyngiad yn niferoedd deintyddion y GIG yng Nghymru sy'n achos pryder gwirioneddol i'r cyhoedd. Mae Dr Berni Sewell a Dr Shaun Harris wedi gweithio â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Kingston a Bridges Self-Management i gyd-gynhyrchu ymyriadau sy'n cael eu hunan reoli ar gyfer cleifion â COVID hir ac osteoarthritis.

RHAGNODI CYMDEITHASOL



Mae rhagnodi cymdeithasol yn helpu i gysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eu cymuned i'w helpu â'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol ac i wella eu hiechyd a'u llesiant. Roedd Mr Abraham Makanjuola, Dr Ned Hartfiel a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards yn rhan o'r tîm ymchwil Dynameg Emosiwn Meddwl (EMD). Mae EMD yn rhaglen hyfforddi ffordd o fyw sy'n helpu unigolion sy'n profi gorbryder neu iselder. Ar y cyfan, roedd hyfforddi ffordd o fyw yn cynhyrchu cymarebau gwerth cymdeithasol positif i gleientiaid wyneb yn wyneb ac ar-lein. Canfu'r astudiaeth enillion cymdeithasol dull cymysg hwn ar fuddsoddiad (SROI) am bob £1 a fuddsoddwyd, roedd hyfforddiant ffordd o fyw yn cynhyrchu gwerthoedd cymdeithasol a oedd yn amrywio rhwng £4.12 a £7.08 ar gyfer cleientiaid wyneb yn wyneb o'i gymharu â £2.37 - £3.35 ar gyfer rhai ar-lein.

PECYN GWAITH 3A: DARPARU CYNGOR A CHYMORTH ECONOME G IECHYD

Rhaid i GIG Cymru a WHSSC sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n fforddiadwy ac yn rhoi gwerth am arian, a'u bod yn cael eu hategu gan dystiolaeth sy'n argyhoeddi o ran diogelwch ac effeithiolrwydd a'u bod yn cael eu gwneud drwy ddilyn proses gyson a thryloyw. Gall hyn leihau amrywiad amhriodol drwy ddefnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu. Disgwylir i'r fframwaith a ddatblygir yn y prosiect hwn gael effaith ar fynediad cleifion at wasanaethau genomeg yng Nghymru.



Yr Athro Dyfrig Hughes, Cydgyfarwyddwr HCEC

Comisiynu gwasanaethau genomeg yng Nghymru

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i'w ateb?

Mae genomeg yn faes sy'n tyfu o fewn GIG Cymru. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, fel bod gwasanaethau genomeg a gomisiynir yn cael eu hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau sy'n cystadlu. Roedd ar Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSCC) angen model comisiynu i werthuso profion genetig i gymryd lle coflen hanesyddol Rhwydwaith Profion Genetig y DU (UKGTN), ac i ategu polisi Cyfeiriadur Profion cyfredol y DU yn enwedig yn achos profi/sganio'r gorwel/profion ymchwil sydd y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn ar hyn o bryd.

Beth wnaethom ni?

Comisiynwyd CHEME gan WHSSC a Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS) i ddatblygu fframwaith blaenoriaethu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer technolegau a gwasanaethau genomeg. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r llenyddiaeth i roi ymchwil yn ei chyd-destun, ac i ddeall pa dulliau comisiynu a adroddwyd yn flaenorol, adolygu fframwaith blaenoriaethu WHSSC a meincnodi'r meini prawf a ddefnyddir gan WHSSC yn erbyn meini prawf a ddefnyddir i lywio comisiynu a datblygu fframwaith newydd. Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, cafodd y fframwaith ei gymhwyso i dair astudiaeth achos o wahanol fathau o brofion genomeg a chyd-destunau rheoli cleifion.

Sut mae ein gwaith yn cysylltu â pholisi Llywodraeth Cymru

Mae Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru yn disgrifio sut y bydd datblygiadau yn ein dealltwriaeth o genomeg a sut yr ydym yn ei gymhwyso'n trawsnewid strategaeth iechyd y cyhoedd a darpariaeth gofal yng Nghymru. Gwneir hyn drwy bolisi comisiynu priodol a gwasanaethau genomeg teg, seiliedig ar dystiolaeth, o safon uchel a chynaliadwy a fydd yn arwain at fuddion i bobl Cymru a gwerth am arian i gomisiynwyr a'r cyhoedd. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r mecanwaith ar gyfer cyflawni hyn.

HYRWYDDO METHODOLEG ECONOMEK IECHYD MEWN YMCHWIL CHWARAEON A GWEITHGAREDD CORFFOROL



Ymunodd Dr Katherine Cullen â Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS), rhwydwaith Cymru gyfan o Brifysgolion Cymru, a Chwaraeon Cymru, fel arweinydd thema ar gyfer Economeg Iechyd, Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol. Mae'r cydweithrediad yn canolbwyntio ar ymchwil i effeithiau economaidd gwella mynediad at ac ymgysylltiad â chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys ymchwil ddiweddar i effeithiolrwydd chwaraeon fel ffordd o fynd i'r afael â throsetdu ieuenctid, cerdded Celtaidd Nordig a phoblogaeth y glasoed, a gwerthusiad o Gogledd Cymru Actif sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd allweddol yng Ngogledd Cymru.

EIN CYFRANIAD AT GANOLFAN TYSTIOLAETH COVID-19 CYMRU A'I NEWID I GANOLFAN DYSTIOLAETH YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU

Rydym wrth ein bodd bod ymchwilwyr HCEC wedi parhau i gyfrannu at dîm tystiolaeth Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIMHR) gyda thri adolygiad cyflym llawn a thri Chrynodeb Tystiolaeth Cyflym, a gyhoeddwyd eleni. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau cyflym ar drais a cham-drin domestig a COVID-19, Ansawdd Bywyd sy'n Gysylltiedig ag Iechyd mewn unigolion wedi'u heintio'n ysgafn ac ymyriadau ac arferion gorau i helpu pobl â COVID hir i ddychwelyd i weithgareddau normal, sydd ynddo'i hun wedi'i gyrchu dros 2,000 o weithiau ers ei gyhoeddi fis Ionawr 2023.

Mae ein cyfraniad wedi arwain at wneud sawl un o ymchwilwyr HCEC yn gydymchwilwyr yn y Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal newydd. Er y bydd y gwaith hwn yn awr y 'tu allan' i HCEC, bydd yn hwb i gyfraniad economeg iechyd i ddatblygu'r dystiolaeth i ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae hyn yn arwydd o'n llwyddiant cynyddol yn y defnydd o seilwaith HCEC fel llwyfan i ddatblygu rhaglenni gwaith newydd ochr yn ochr â datblygu ein hymchwilwyr economeg iechyd a chreu cyfleoedd newydd i economegwyr iechyd yng Nghymru i gyflawni ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau iechyd a gofal sy'n wynebu Cymru.

PECYN GWAITH 3B: CYFRANNU ARBENIGEDD ECONOMEG IECHYD AT BROSES AU GWNEUD PENDERFYNIADAU A LLUNIO POLISI

Mae enghreifftiau nodedig o sut yr ydym wedi cynorthwyo prosesau penderfynu a llunio polisiau yng Nghymru yn 2022/23 yn cynnwys:

- Darparu cyngor a chymorth economeg iechyd i Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru (yr Athro Dyfrig Hughes), y Grŵp Meddyginiaethau Newydd (yr Athro Deb Fitzsimmons) a Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (Dr Berni Sewell a Dr Shaun Harris)
- Darparu cyngor economeg iechyd i Banelau Asesu Technoleg Iechyd Cymru (Dr Berni Sewell a Dr Katherine Cullen)
- Cefnogi Canolfan Arloesi mewn Gwella Clwyfau Cymru fel Aelod o'r Bwrdd (yr Athro Deb Fitzsimmons)
- Aelodau o bwyllgorau cyrff cyllido gan gynnwys Rhaglen Grantiau ar gyfer Ymchwil Gymhwysol NIHR a Phanel Uned Ymchwil Polisi NIHR (yr Athro Deb Fitzsimmons)
- Arwain economeg ar gyfer Sefydliad Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon Cymru (Dr Katherine Cullen)
- Cynrychioli Ymchwilwyr Cynnar yn eu Gyrfa (ECR) yng Nghymru ar bwyllgor ECR Grŵp Astudio Economeg Iechyd y DU (Dr Shaun Harris)

GWERTHUSO DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Mae ymchwilwyr HCEC yn SCHE wedi cydweithio â Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC), Prifysgol De Cymru, PRIME Cymru a Phrifysgolion Abertawe, Metropolitan Caerdydd a Bangor i gynnal gwerthusiad 4 blynedd o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Mae'n cynnwys 19 o gwestiynau 'prawf' seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ystyried y camau sydd eu hangen i wella gwasanaethau cymdeithasol, ac ansawdd a digonolrwydd gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl Cymru'n cael eu clywed a'u bod yn gallu rhannu penderfyniadau am y gofal a'r cymorth maent yn ei gael.

Cynyddu Cyfraniad Cymru ar Astudiaeth Prasio EuroQol UK EQ-5D-5L

Mae ymchwilwyr HCEC yn rhan o'r tîm a benodwyd gan EuroQol i gyfrannu at ddatblygu astudiaeth brisio newydd yn y DU ar gyfer yr holiadur EQ-5D-5L, mesur canlyniadau pwysig a adroddir gan gleifion sy'n cael ei ddefnyddio i werthuso a gwneud penderfyniadau economeg iechyd. Dechreuodd yr astudiaeth gasglu data yn swyddogol ym mis Hydref 2022 ar ôl cwblhau cam pilot yn llwyddiannus, mae'r gwaith o gasglu data'n awr yn mynd yn ei flaen ar gyfer prasio EQ-5D-5L yn y DU gyda chynnydd da wedi'i wneud i sicrhau bod sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru wedi'i chynnwys. Mae safle Cymru, o dan arweiniad Dr Nathan Bray ym Mhrifysgol Bangor, bellach wedi cwblhau 95 o gyfweiliadau, ac wedi cynnal dadansoddiadau interim llwyddiannus. Bydd y gwaith pwysig hwn yn rhan o set brisio safon aur ar gyfer yr holiadur EQ-5D-5L yn y DU, ac ar ôl iddo gael ei gymeradwyo disgwylir iddo gael ei fabwysiadu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a chyrrff penderfynu iechyd a gofal eraill y DU fel rhan o'r 'achos cyfeirio' ar gyfer gwerthusiadau economaidd.

Am ddiweddariadau rheolaidd ar y gwaith hwn, gweler [blog EuroQol](#).

CODI YMWHYBYDDIAETH O ECONOMEG IECHYD A GOFAL

Cynhaliodd CHEME a'r Academi Dysgu Rhyngwladol, ALPHA Academy (ILA), gwrs deuddydd di-dâl ym Mhrifysgol Bangor, a oedd wedi'i drefnu i gyd-fynd â'r llyfr gosod 'Applied Health Economics for Public Health Practice and Research', a ysgrifennwyd ar y cyd gan ein Cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Emma McIntosh o Brifysgol Glasgow.



Can I have a puppy please?

The 'health economist' would ask when faced with this difficult choice
(*In real life personal preference would be a key driver in decision making).

- With our limited resources, will investing in this puppy bring the most benefit (utility) to our family?
- What other benefits will be forgone if we choose to invest in this puppy?
- How can we make a decision about the value of this puppy in an objective, transparent and justifiable way?

Yn rhinwedd eu swyddi fel Uwch Arweinyddion Ymchwil Economeg Iechyd a Gofal Cymru, cyflwynodd yr Athro Deb Fitzsimmons a'r Athro Dyfrig Hughes y gyfres gyntaf o weminarau'r Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal sydd ar gael i'r cyhoedd, a oedd yn edrych ar yr hyn mae economegwyr iechyd yn ei wneud a pham y mae mor bwysig.

Mae Dr Berni Sewell wedi arwain y gwaith o ddatblygu cyfres o adnoddau hyfforddi mewnol ar gyfer Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) i helpu aelodau pwyllgor Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru (AWMSG) a'i is-bwyllgorau i ddeall sut y mae tystiolaeth economeg iechyd yn cael ei chymhwyso i asesiadau economeg iechyd.



AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Cenrhod Therapewtig a Thocsicoleg Cymru Gyfan

What is Health Economics?
And why is it so important?

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

SCHE Swansea
Centre for Health Economics
Research Led, Analysis Driven, Real World Perspective

Mae fy nghysylltiad â HCEC (a WHESS cyn hynny) wedi fy helpu i ddatblygu fy ngyrfa, i ffurfio fy rhwydweithiau, cynyddu fy mhortffolio ac i ddangos effaith fy ngwaith, er enghraifft drwy gyflwyniad podiwm ar ein gwerthusiad o gostau gwarchod unigolion bregus yn ystod y pandemig COVID-19, yng nghynhadledd Ewrop yr International Society of Patient Outcomes Research (ISPOR) yn Vienna, Awstria.



Dr Berni Sewell, HCEC Cymhwilydd

PECYN GWAITH 4: ADEILADU CAPASITI A GALLU MEWN YMCHWIL ECONOMEG IECHYD FETHODOLEGOL A CYMHWYSOL

Roedd 2022/23 yn flwyddyn gynhyrchiol i HCEC o ran adeiladu capasiti. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Dod â'n cymuned Gymreig o arbenigedd economeg iechyd at ei gilydd

Mae ein cyfarfod blynyddol o Grŵp Economeg Iechyd Cymru (WHEG) yn gyfle gwerthfawr o hyd i ddod â chymuned economeg iechyd Cymru at ei gilydd i rannu ein gwaith ac i drafod datblygiadau'n ymwneud â pholisi ac ymchwil. Ym mis Tachwedd 2022, croesawyd dros 50 o gynrychiolwyr o'r byd academaidd, grwpiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru.

Yn dilyn cyflwyniadau gan yr Athro Emma McIntosh (Prifysgol Glasgow) ac ymchwilwyr HCEC, cafwyd sesiwn lle'r oedd panel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys Dr Brendan Collins (Pennaeth Economeg Iechyd gyda Llywodraeth Cymru), Dr Joanna Charles (Is-bennaeth Economeg Iechyd gyda Llywodraeth Cymru), Ms Rebecca Masters (Economegydd Iechyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Mr Matthew Prettyjohns (Prif Ymchwilydd ac Economegydd Iechyd gyda Thechnoleg Iechyd Cymru) yn trafod yr achos economeg iechyd dros atal a llesiant.

Welsh Health Economists' Group (WHEG) annual meeting Turning the Tide: Health Economics of Well-being Across the Prevention Agenda/Gweithdy blynyddol...

Request control Pop out People Chat Reactions More Camera Mic Share Leave

University of Glasgow | Institute of Health & Wellbeing

SITless health Economics Logic Model

Inputs

- Individual opportunity cost related to physical exercise and use of sport services
- Friends and relatives opportunity costs related to care provision (self-care, household care, shopping etc.)
- NHS costs/cost savings (visits to GP, hospital admissions, medication)
- Personal costs related to health improvement/reduction of sedentary behaviour
- Use of community services (home care, night care, home meal delivery etc.)
- SMS intervention costs (staff costs, cost of venue...)
- Control intervention (ERS and usual care) costs

Intervention

- ERS+SMS vs ERS/usual care
- SMS: Behavioral/educational intervention: intervention tailored to individual needs, environmental and social opportunities
- Control: ERS and usual care

Short term outcomes

- Improved quality of life, well being and capability wellbeing
- Lower Health System/Community costs
- SB: PA, Physical function, muscle function, anthropometry, bioimpedance, blood pressure, ADL, anxiety, depressive symptoms, social network, PA self-regulation, self-efficacy for exercise, disability, fear of falling, loneliness, executive function, physical fatigue

Long term outcomes

- Lower occurrence of chronic diseases
- Improvement of existent chronic and non chronic conditions
- Long term health and social cost savings arising from reduced chance of developing chronic diseases
- Long-term improvements in quality of life and capability wellbeing
- Develop best-practices on long-term sustainable interventions on PA and SB that can be easily implemented and transferable to other settings

Jacob Davies

Type here to search

11°C 10:28 17/11/2022

Yr Athro Emma McIntosh (Prifysgol Glasgow) yn cyflwyno ei hanerchiad ysbrydoledig ar Ddatblygiadau mewn Economeg Iechyd yng nghyfarfod 2022 o WHEG.

Dathlu llwyddiant ein Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar

Cyflwynodd Mr Abraham Makanjuola, Swyddog Ymchwil HCEC gyda CHEME, y Prosiect Agor Drysau i'r Awyr Agored (ODO) yng nghyfarfod Grŵp Astudio Economeg Iechyd y DU. Dyfarnwyd gwobr gyntaf i Abraham am y cyflwyniad gorau yn y sesiwn anerchiad cyflym.

Dyfarnwyd Gwobr Rhagoriaeth Gyrfa Gynnar i Mr Jacob Davies, Swyddog Cymorth Prosiect Ymchwil HCEC yn CHEME, yng Nghynhadledd Wanwyn ECR 2023 ym Mhrifysgol Bangor. Dyfarnwyd y wobr i Jacob am arddangos rhagoriaeth yn ei waith yn yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor.

Dyfarnwyd gwobr yr ECR a Hyfforddai am boster i Dr Katherine Cullen, Swyddog Ymchwil yn SCHE, yng nghyd-gynhadledd y Gaeaf Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru, Cymdeithas Seiciatrig Cymru a'r Ganolfan Cydweithredu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym mis Rhagfyr 2022 gyda'i chyflwyniad poster ar ddadansoddiad cost a budd yn cymharu therapi ymddygiad gwybyddol ar y rhyngwyd ac wyneb yn wyneb ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn y DU.

BUDDSODDI YN ARWEINWYR YMCHWIL ECONOMEG IECHYD Y DYFODOL

Cafodd Dr Llinos Haf Spencer ei dewis ar gyfer Crwsibl Cymru 2023, rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer Arweinyddion Ymchwil y Dyfodol yng Nghymru. Roedd Llinos yn gyd-ymgeisydd yng nghais llwyddiannus Canolfan Tystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac mae'n arwain y tîm adolygiadau cyflym economeg iechyd yn CHEME.

Cafodd Dr Mari Jones ddyrchafiad i fod yn Uwch Swyddog Ymchwil yn SCHE, i gydnabod ei llwyddiant a'i henw da mewn economeg iechyd. Hi yw'r Prif Ymchwilydd ar yr astudiaeth COSMO yn ogystal â bod yn gyd-ymchwilydd (economegydd iechyd arweiniol) ar astudiaethau a ariannir gan NIHR, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a diwydiant.

Llongyfarchiadau i...

Dr Lucy Bryning a gwblhaodd ei PhD ym maes ymwybyddiaeth ofalgar yn CHEME ac a oedd yn flaenllaw mewn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil economeg iechyd.

Dr Huw Lloyd-Williams y dyfarnwyd PhD iddo am ei ymchwil i economeg profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn CHEME.

Dr Bethany Fern Anthony a amddiffynnodd ei thraethawd PhD ar y ddarpariaeth gwasanaethau meddygol cyffredinol gan weithwyr iechyd proffesiynol anfeddygol a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn CHEME.



Cipolwg ar ...



DATBLYGIAD

Mae eleni wedi cynnig cyfleoedd newydd i'n hymchwilyr i gyfrannu at arweinyddiaeth a rheolaeth HCEC. Mae ein dull ystwyth yn sicrhau bod HCEC wedi parhau i gefnogi newidiadau yng ngwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig ein cyfraniad at ddatblygiad Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a threialon ymchwil. Rydym hefyd wedi cyflwyno rôl newydd i ddatblygu galluoedd a gwaith dulliau cymhwysol, sy'n cael ei arwain ar y cyd gan ymchwilyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa ac Uwch Ymchwilyr.



TEGWCH

Mae tegwch yn golygu bod pob unigolyn yn cael eu trin yn gyfartal, a bod rhai ag anghenion tebyg yn cael triniaeth debyg heb ystyriaeth i'w gallu i dalu. Dyma un o egwyddorion sylfaenol y GIG. Mae Mr Jacob Davies, Swyddog Cymorth Prosiect Ymchwil HCEC, yn ymgymryd ag ymchwil ar gyfer gradd Meistr sy'n edrych ar degwch amseroedd aros. Mae gwaith Jacob dangos mai Trawma ac Orthopedeg sydd â'r rhestrau aros hwyaf yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2023, roedd 98,000 o gleifion yn aros am driniaeth yng Nghymru, gyda 12% o'r rhain yn aros mwy na 105 wythnos. Hefyd, mae'r Athro Steve Robson (Australian National University) yn ymchwilio i restrau aros dewisol yn Awstralia o'i gymharu â'r DU a Chymru gan ystyried statws economaidd gymdeithasol a defnydd oes gyfan o lawdriniaeth ddewisol fel rhan o'i radd Meistr drwy Ymchwil Economeg Iechyd yn CHEME. Mae Steve yn rhannu profiad helaeth ei gefndir clinigol yn ogystal â'i rôl fel llywydd yr Australian Medical Association. Mae mynd i'r afael ag amseroedd aros gormodol yn dasg hanfodol i'r GIG gan eu bod yn arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion, costau gofal iechyd uwch a mwy o anghydraddoldeb ac annhegwch i bobl Cymru.

EIN PRIF GYHOEDDIADAU

Yn 2022/23, cynhyrchodd HCEC 30 o gyhoeddiadau. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran effaith ein hymchwil, gyda 22 o bapurau wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a 12 mewn cyfnodolion gyda ffactor effaith o fwy na 4. Cafodd cyfran (n=8) o'n cyhoeddiadau eleni eu cyhoeddi mewn manau eraill gan gynnwys llyfrgell gyhoeddiadau Canolfan Tystiolaeth COVID-19 Cymru, ystorfa Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a'r EORTC.

Mae enghreifftiau o brif gyhoeddiadau 2022/23 yn cynnwys:

- HART Collaborative, **Sewell B** (2022). Incisional hernia following colorectal cancer surgery according to suture technique: Hughes Abdominal Repair Randomized Trial (HART). British Journal of Surgery, 109(10): 943-950.
- Cocks K, Wells JR, Johnson CD, Schmidt H, Koller M, Oerlemans S, Velikova G, Pinto M, Tomaszewski A, Aarronson NK, Exall E, Finbow C, **Fitzsimmons D**, et al. for the European Organisation for Research and Treatment of Cancer (EORTC) Quality of Life Group (2023). Content validity of the European Organisation for Research and Treatment of Cancer Quality of Life Questionnaire QLQ-C30 for use in cancer. European Journal of Cancer, 178: 128-138.
- **Granger R**, Genn H, **Edwards RT** (2022). Health economics of health justice partnerships: A rapid review of the economic returns to society of promoting access to legal advice. Frontiers in Public Health, 10: 1009964.
- Humphrey N, Hennessey A, Troncoso P, Panayiotou M, Black L, Petersen K, Wo L, Mason C, Ashworth E, Frearson K, Boehnke JR, **Pockett RD**, **Lowin J**, Foxcroft D, Wigelsworth M, Lendrum A (2022). The Good Behaviour Game intervention to improve behavioural and other outcomes for children aged 7-8 years: a cluster RCT. Public Health Research, 10(7).

CRYNODEBAU NODEDIG O GYNADLEDDAU 2022/23:

- **Makanjuola A**, Lynch M, **Hartfiel N**, Cuthbert A, Wheeler HT, & **Edwards RT** (2022). Social return on investment of face-to-face versus online lifestyle coaching to improve mental wellbeing. The Lancet, 400, S59.
- **Spencer LH**, Lynch M, & **Makanjuola A** (2022). Qualifications and training needs of social prescribing link workers: an explorative study. The Lancet, 400, S79.

Am ragor o wybodaeth am gyhoeddiadau HCEC, ewch i [wefan HCEC](#).

Mae'r cyfeiriadau atom yn cynyddu!

Mae'n bleser gweld pa mor dda mae ein hallbynnau ymchwil a gyhoeddwyd yn ystod ein cyfnod fel HCEC yn perfformio. Ar fynegai cyfeiriadau SCOPUS, mae papurau diweddar sydd wedi'u harwain a'u cefnogi gan HCEC lle mae cyfeiriadau'n dringo'n uwch na'r disgwyl ar gyfer allbynnau cymaradwy, yn seiliedig ar sgôr effaith cyfeiriadau dyfyniadau disgwylieidig wedi'u pwysoli (FWCI) o 1, yn cynnwys:

5.37
FWCI

Improving quality of life through the routine use of the patient concerns inventory for head and neck cancer patients

2.73
FWCI

Palliative radiotherapy after oesophageal cancer stenting (ROCS): a multicentre, open-label, phase 3 randomised controlled trial

3.46
FWCI

Content Validity of the EORTC QLQ-C30

2.64
FWCI

Surgery for submacular haemorrhage secondary to exudative age-related macular degeneration (TIGER study)

Effaith gynyddol

Papurau HCEC 2022/23

PAPURAU ACADEMAIDD 22

22

Papurau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion effaith uchel a adolygir gan gymheiriaid fel y British Journal of Surgery a'r European Journal of Cancer.

95%
MYNEDIAD
AUR



8

ADRODDIAD

Wedi'u cyhoeddi yn llyfrgell gyhoeddiadau Canolfan Tystiolaeth COVID-19, storfa Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a'r EORTC.



3

GRYNODEBAU

Cyflwyniadau mewn cynadleddau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion effaith uchel fel The Lancet.

CYNYDDU EIN CYDWEITHREDIADAU

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi parhau i gynnal ein cysylltiadau presennol yn ogystal â meithrin rhai newydd i sicrhau ein bod yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym wedi buddsoddi i ddatblygu ein cydweithrediadau â darparwyr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Enghraifft nodedig yw ein partneriaeth â Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) a'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR) i helpu i gyflawni uchelgais Cyngor Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu eu gallu i ymchwilio. Bu'r Athro Deb Fitzsimmons yn cyfrannu at y cyflwyniad diweddar oedd â'r nod o helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu gallu ymchwilio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol lleol i Alwad Penderfynyddion Iechyd gan NIHR.

MEITHRIN CYDWEITHREDIADAU NEWYDD

Rydym yn falch o groesawu Dr Ceryl Davies a'r Athro Murray Smith i gymuned economegwyr iechyd Cymru. Ymunodd Ceryl â Phrifysgol Bangor gyda chefnidir yn y gyfraith, gwaith cymdeithasol a pholisi cymdeithasol a bydd ei harbenigedd mewn economeg gofal cymdeithasol yn gaffaeliad i HCEC i hybu'r maes gwaith allweddol hwn. Ymunodd Murray â Phrifysgol Aberystwyth fel Athro Economeg Iechyd Gwledig ym mis Rhagfyr 2022 ar ôl cychwyn ei yrfa yn Awstralia. Gyda chefnidir mewn econometreg ac ystadegau, mae Murray wedi gwneud enw iddo'i hun mewn ymchwil economeg iechyd y bydd yn dod gydag ef i Gymru, gan weithio â sawl un o'n Byrddau Iechyd. Rydym yn gyffrous ynglŷn â phosibiliadau cyfraniadau Ceryl a Murray i economeg iechyd yng Nghymru, yn enwedig wrth inni ddatblygu perthnasoedd gweithio ar lefel Cymru gyfan yn y dyfodol.

Cyd-gyfarwyddwyr HCEC yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Deb Fitzsimmons yn croesawu'r Athro Murray Smith i gymuned economegwyr Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Cydweithio i hybu darpariaeth modelau diagnosis cyflym i bobl yng Nghymru yr amheuir bod cancer arnynt

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu i'w ateb?

Yn ystod haf 2018 (diweddarwyd yn gynnar yn 2020), cadarnhaodd ymchwilwyr HCEC yn SCHE gost-effeithiolrwydd peilot newydd ar gyfer canolfan diagnosis cyflym (RDC) yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot sydd wedi lleihau'r amser a gymer i wneud diagnosis i bobl â symptomau amhenodol a allai fod o ganlyniad i ganser, o 84 diwrnod i 6 diwrnod ac roedd hefyd yn arbed costau o'i gymharu â gofal arferol. O ganlyniad i'n gwerthusiad, mae RDC bellach yn wasanaeth craidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gan alluogi cleifion nad oedd yn addas yn y gorffennol ar gyfer unrhyw lwybr cancer i gael diagnosis amserol, sy'n lleihau pryder a straen, ac sy'n eu grymuso.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Yn dilyn llwyddiant yr RDC lleol, mae'r model RDC yn awr yn cael ei gyflwyno ledled Cymru fel ffordd o wella gofal a chanlyniadau i gleifion ac i weithio'n fwy effeithlon. Hefyd, mae'r Moondance Cancer Initiative wedi darparu cyllid i ehangu'r model RDC i gynnwys canserau safle penodol, gan gynnwys cancer y colon a'r rhefr mewn cleifion iau a chanserau'r pen a'r gwddf. Mae ymchwilwyr HCEC yn SCHE yn cael eu hariannu i gynnal gwerthusiad o'r llwybrau cleifion newydd hyn y gobeithir y bydd yn gwella gofal i gleifion a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau cancer. Hefyd, mae Cancer Research UK yn talu am ddatblygu a gwerthuso llwybr newydd ar gyfer cancer y brostad, gyda HCEC yn cynnal y gwerthusiad economeg iechyd.

Beth yw'r effaith a ddisgwylir

Mae hon yn rhaglen sydd ar waith ac mae ganddi'r potensial i drawsnewid gwasanaethau cancer yng Nghymru a thu hwnt drwy leihau amseroedd aros, gwella gofal i gleifion, canlyniadau i gleifion a'r defnydd a wneir o adnoddau prin y GIG.

ARWAIN A CHEFNOGI YMCHWIL I GLEFYD YR AFU

Mae'r British Association for the Study of the Liver wedi ariannu Partneriaeth Hepatocellular Carcinoma UK (HCC-UK) a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Cofrestru a Dadansoddi Canser (NCRAS), sy'n cynnwys grwpiau academaidd o bob cwr o'r DU, gan gynnwys Prifysgol Abertawe. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu rhaglen ymchwil sy'n seiliedig ar set ddata carcinoma hepatogellol sydd wedi'i choladu o'r gofrestrfa cancer seiliedig ar boblogaeth ar gyfer Lloegr ac sy'n gysylltiedig â setiau data eraill a reolir gan NCRAS. Fel rhan o'r ymchwil, mae ymchwilwyr HCEC yn SCHE wedi datblygu dadansoddiadau i feintioli effaith carcinoma hepatogellol i gyllideb y GIG, ac a [gyhoeddwyd yn BMJ Open Gastroenterology](#). Canlyniad y cydweithredu llwyddiannus hwn yw bod SCHE wedi ymuno â Phartneriaeth Ymchwil yr Afu Cymru sy'n cysylltu holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru gyda Chynllun Gweithredu Clefyd yr Afu Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau cyllid gan NIHR eleni i adeiladu'r gymuned ymchwil yng Nghymru, i ddeall y data sydd ar gael ym manc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL), ac i roi prawf ar y set data i roi sylw i amcanion allweddol, gan gynnwys cost salwch clefyd yr afu yng Nghymru.

Rhai o'r Prif Sefydliadau sy'n Cydwethio â Ni

ACADEMAIDD

- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Southampton
- Prifysgol Nottingham
- Prifysgol Caeredin
- University College London
- Prifysgol Kingston
- Kings College London
- Prifysgol Lerpwl
- Prifysgol Birmingham

SEILWAITH YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU

- Y Ganolfan Treialon Ymchwil
- Uned Treialon Abertawe
- Sefydliad Hapdreialon Iechyd Gogledd Cymru
- PRIME Cymru
- Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia
- Y Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil
- Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw
- Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru
- Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru
- BRAIN
- Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth
- Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl

SEFYDLIADAU GOFAL A'R GIG

- BIP Aneurin Bevan
- BIP Betsi Cadwaladr
- BIP Caerdydd a'r Fro
- BIP Cwm Taf
- BIP Bae Abertawe
- BIP Hywel Dda
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Penfro
- Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (Iwerddon)

RHYNGWLADOL

- Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil a Thriniaeth Canser
- Horizon Ewrop

ELUSENNAU A'R TRYDYDD SECTOR

- Cyngor ar Bopeth
- Moondance Cancer Initiative
- Cancer Research UK

SYLWADAU I GLOI: EIN HUCHELGAIS AR GYFER TWF YN Y DYFODOL

Mae ein trydedd blwyddyn yn parhau i ddangos twf o flwyddyn i flwyddyn o ran incwm, dyfarniadau ac allbynnau. Mae ein hysbryd o gydweithio'n parhau i ffynnu, fel y gwelir yn ein harweinyddiaeth a'n cefnogaeth i ymchwil iechyd a gofal rhagorol yng Nghymru. Mae ein hymchwilyr wedi mynd o nerth i nerth gyda llif cyson o PhD i Athro mewn arbenigedd Economeg Iechyd yng Nghymru, gan gynnwys croesawu'r Athro Murray Smith a Dr Ceryl Davies i'n cymuned.

Mae gan HCEC arweinyddiaeth gref a gweithlu ifanc, egniol o ymchwilyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa ac sy'n datblygu ac yn elwa ar fentora mewn sicrhau grantiau a chymorth polisi. Mae ein Bwrdd Cynghori sy'n cynnwys arbenigwyr rhyngwladol cydnabyddedig yn eu maes o bob rhan o'r DU yn parhau i'n cefnogi drwy graffu'n feirniadol ar ein gwaith, gan sicrhau bod modd meincodi gwaith HCEC gydag unedau economeg eraill a bod ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cyllidwyr ymchwil a gwasanaethau fel y gall HCEC barhau i ddylanwadu ar bolisiau, ymarfer ac ymchwil fel maent yn newid.

Roedd y penderfyniad gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i barhau i ariannu HCEC tan fis Mawrth 2025 yn gymeradwyaeth gref i'n gwaith hyd yma ac mae'n gyfle inni i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol HCEC am y blynyddoedd nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at gyfnod o dwf mewn rhagoriaeth ymchwil yn ystod y blynyddoedd nesaf.



HCEC a'r tîm ymchwil yng Nghanolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) ym Mhrifysgol Bangor

ADEILADU AR SEILIAU CRYF

Yr hyn sy'n ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer HCEC yw'r parhad yn ein hymrwymiad i economeg iechyd o safon ryngwladol o ran allbynnau academaidd a chymorth polisi. Rydym yn cydnabod yr heriau mae Llywodraeth Cymru ac iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cynhyrchu tystiolaeth am gost-ffeithiolrwydd a buddiannau posib i werth cymdeithasol i ategu penderfyniadau am ddyrannu adnoddau sy'n mynd yn gynyddol brinnach. Drwy hyn mi allwn gynnal y system iechyd a gofal er budd pobl Cymru ac i hyrwyddo ystyriaethau effeithiolrwydd, gwerth a thegwch.



Mae'n adeg briodol i fyfyrion ar ein cynnydd yn ystod y tair blynedd diwethaf ac i nodi ein hamcanion ar gyfer y dyfodol. Rydym yn dychwelyd at waith cychwynnol yr Athro Alan Williams mewn economeg iechyd i ddangos sut y gall cymhwyso damcaniaethau economeg i benderfyniadau iechyd a gofal fod yn sail i effaith gynyddol HCEC ar iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar bobl a lleoedd Cymru.

Effaith economeg iechyd a HCEC ar iechyd a gofal, gwneud penderfyniadau a gosod blaenoriaethau yng Nghymru. Addaswyd a diweddarwyd o ddiagram enwog Alan Williams.

Cyfeiriad: Williams A. Health economics: the cheerful face of a dismal science. In Health and Economics, Williams A (ed.). Macmillan: London, 1987.

Gyda'n pwyslais cynyddol ar atal mewn gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, bydd cryfhau'r GIG a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru'n ganolog i'n gweithgaredd. Mae ein portffolio o waith yn cadarnhau ein huchelgais. Mae'n deillio o gyflawni gwaith methodolegol a chymhwysol i ddeall penderfynyddion iechyd ac i fesur iechyd a llesiant, i gael gwybodaeth hanfodol am gost-effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau a gwasanaethau, a hefyd sut a ble i flaenoriaethu a sicrhau bod ein systemau iechyd a gofal yn darparu gofal effeithlon a theg i bobl yng Nghymru.

Ynghyd â chymorth ariannol a/neu arall gan ein Sefydliadau Addysg Uwch, mae cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn rhoi cyfle inni i gynyddu ein portffolio o brosiectau, effaith ein hymchwil, ein cyfathrebiadau a'n cysylltiadau, a'n buddsoddiad mewn hyfforddiant i ymchwilwyr sy'n gynnar yn eu gyrfaedd, ac i fentora'r sawl sy'n datblygu gyrfa mewn economeg iechyd yng Nghymru. Rydym mewn sefyllfa gref i gystadlu am grantiau ymchwil yn y DU ac Ewrop, ac ar y cyd i ddenu miliynau o bunnoedd i Gymru gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU, Asesu Technoleg Iechyd yr NIHR a'r Cyngor Ymchwil Meddygol, yn ogystal â Horizon Ewrop a grantiau ymchwil gan gyrff rhyngwladol eraill.

YN YSTOD Y PUM MLYNEDD NESAF, MI FYDDWN YN...

- Canolbwyntio ein ceisiadau grant ar feysydd lle'r ydym yn gryf, neu'n cryfhau.
- Gwella ein harweinyddiaeth mewn ymchwil ar lwyfan y DU ac yn rhyngwladol, a pharhau i ymateb i anghenion ymchwil canolfannau a sefydliadau seilwaith eraill a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Rhoi pwyslais ar economeg salwch y gellid ei osgoi, anabledd, marwolaethau cynamserol, a gosod iechyd a llesiant yng nghalon ein meddylfryd a'n dulliau economaidd.
- Adeiladu ar ein cryfderau a'n record o ddenu grantiau a datblygu ym meysydd economeg gofal cymdeithasol, economeg iechyd lle (sut mae lle mae pobl yn byw yn effeithio ar ein cyfleoedd iechyd drwy gydol ein hoes), meddyginiaethau a rôl fferylliaeth mewn darparu gofal iechyd a chyd-gynhyrchu iechyd gan gleifion a datblygu mesurau ymchwil sy'n adlewyrchu sut mae pobl yn meddwl ac yn teimlo am broses a chanlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Diolch yn fawr

Ar ran HCEC, diolch i chi am ddarllen ein Adroddiad Blynyddol am 2022/23. Gobeithio y cawn gwrdd â chi yn ystod y flwyddyn nesaf i drafod ac i rannu syniadau, ac i weithio â llawer ohonoch yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Deb Fitzsimmons

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ein gwaith a sut y gallwn eich helpu, ewch i'n gwefan:

<https://economegiechydagofal.cymru>

YMUNWCH Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



<https://facebook.com/economicscymru/>



<https://twitter.com/hcecymru/>

CYSYLLTU Â NI

Os hoffech chi gael cyngor ar economeg iechyd neu drafod sut y gallwn eich helpu yn eich ymchwil, mae croeso i chi anfon e-bost atom yn:

De Cymru - HCEC@swansea.ac.uk (Prifysgol Abertawe)

Gogledd Cymru - HCEC@bangor.ac.uk (Prifysgol Bangor)

